



GRŴP PYSGODFEYDD A GWYDDORAU CADWRAETH CYLCHLYTHYR

RHIFYN 2: MEHEFIN 2013

CYNNWYS

HOLL BYSGODFEYDD CYMRU

- Holiadur i bysgotwyr
- Arolwg cynefin
- Y rheng sy'n hedfan

PYSGODFEYDD CREGYN BYLCHOG

- Arbrawf dwyster pysgota
- Asesu stoc y cregyn bylchog
- Silio'r gragen fylchog

PYSGODFEYDD DRAENOGIAID MÔR

- Silfeydd draenogiaid y môr
- Pysgodfeydd hamddena draenogiaid y môr

CEWYLL

- Camera ar y cwch
- Tagio cimychiaid
- Statws stoc y gragen foch fwyaf
- Statws stoc gorgimychiaid
- Tadogaeth y cranc coch

NEWYDDION DIWEDDARAF:



TAGIO CIMYCHIAID

Pa mor gyflym mae cimychiaid yn tyfu a pha mor bell maen nhw'n teithio?

Mae astudiaeth tagio cimychiaid i ddechrau er mwyn monitro twf mewn cimychiaid ledled Cymru. Bydd y data hwn yn ein galluogi i ddeall faint o gimychiaid rhy fychan a all fod yn rhan o'r pysgodfeydd mewn blwyddyn neu ddwy.



Llun - *H. gammarus* wedi'i dagio (Leigh Howarth)



Llun – Pecynnuau Samplu Draenogiaid y Môr (Giulia Cambiè)


PECYNNAU SAMPLO DRAENOGIAID Y MÔR

Ble mae draenogiaid y môr yn silio? Pa mor bell maent yn teithio? Ydi draenogiaid y môr yn y Gogledd yr un stoc ac yn y De neu hyd yn oed yn Sbaen?

Dosberthir pecynnuau samplu i bysgotwyr masnachol a rhai ar gyfer hamddena i helpu i ateb y cwestiynau.

CAMERA AR Y CWCH

Camerâu wedi'u gosod ar gychod pysgota yn gwneud fideo o'r hyn sy'n cael ei ddal a'i ddychwelyd. Gallwn fonitro meintiau, cymarebau rhyw a chyflenwad o'r darn o ffilm. Mae'r llun (ar y dde) yn dangos sampl o'r data a gasglwyd.



Nifer y crancod coch gwrywaidd a benywaidd rhy fach a rhai a ddaliwyd mewn 86 cawell. Casglwyd y data gan gamera ar y cwch.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CANFOD MWY :

fisheries-conservation.bangor.ac.uk

E-bost: fisheries@bangor.ac.uk

Ysgol Gwyddorau Eigion
Prifysgol Bangor, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5AB



Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsodi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund: Investing in
Sustainable Fisheries



PYSGODFEYDD CYMRU GYFAN

Holiadur Pysgotwyr

Amcan:

Datblygwyd holiadur gwybodaeth pysgotwyr i gael gwybodaeth gan bysgotwyr am weithgaredd pysgota, y defnydd o abwyd, pwysigrwydd economaidd, gwrthdaro buddiannau, ardaloedd meithrin a llwybrau mudo. Mae'r holiadur yn cynnwys ymarfer mapio ble mae ardaloedd pysgota presennol a rhai hanesyddol yn cael eu mapio a ble ceir gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhywogaeth darged. Defnyddir yr wybodaeth hon i lywio cynllun arbrofol y prosiectau'r rhywogaethau unigol a darparu gwell dealltwriaeth o weithgaredd gofodol pysgota o amgylch Cymru ac ecoleg leol rhywogaethau a dargedwyd. Er enghraifft, mae maint trachywir y pysgodfeydd yn bwysig ar gyfer cynllunio asesiadau addas gyda'r diwydiant. Dylai canlyniadau'r holiadur roi rhestr o weithgaredd i'r diwydiant ledled Cymru a thynnu sylw at bwysigrwydd y pysgodfeydd.

Cynnydd:

Cafodd y ffurflen cydsyniad bellach ei chwblhau a thri holiadur peilot eu gwneud gyda chynrychiolwyr y diwydiant pysgota o'r Grŵp Cyngori Defnyddwyr Gwyddoniaeth (SUAG). Arweiniodd canlyniadau hyn at fireinio'r holiadur, a anfonwyd wedyn at y cwmni datblygu meddalwedd a fydd yn cyflwyno'r holiadur terfynol ar gyfrifiadur erbyn 17 Mai 2013. Bydd y diwydiant pysgota yn penderfynu'r raddfa a'r dadansoddiad y bydd y data ar gael yn gyhoeddus. Bydd y ffurflen cydsyniad ar sail gwybodaeth yn caniatáu i Brifysgol Bangor warchod yr wybodaeth a roddwyd yn yr holiadur. Mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu sut y defnyddir, y rhennir ac y cyhoeddir y data.

Gwaith i'r dyfodol:

O fis Mehefin tan fis Awst byddwn yn cynnal yr holiadur i bysgotwyr ledled Cymru. Rydym eisiau i chi gymryd rhan. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, yna cofrestrwch drwy'r wefan neu anfonwch e-bost: fisheries@bangor.ac.uk.

Arolwg Cynefin

Amcan:

I gasglu data ar fathau a statws cynefinoedd o amgylch arfordir Cymru gan ddefnyddio'r Tywysog Madog a chychod pysgota. Drwy ddatblygu systemau camera tanfor y gellir eu gollwng o gychod, bydd y prosiect yn galluogi pysgotwyr i gyfrannu i fapio cynefinoedd dros bysgodfeydd y cregyn bylchog a mannau creigiog eraill ar hyd yr arfordir, h.y. cynefinoedd y cymychiaid a'r crancod. Bydd hyn yn rhoi mynediad i'r diwydiant i offer a all helpu wrth adnabod cynefinoedd i roi gwybod am asesiadau priodol sydd eu hangen oddi fewn i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), monitro safle, etc.

Cynnydd:

Ym Mis Mehefin ac ym Mis Hydref 2012 cwblhawyd arolygon gyda'r Tywysog Madog. Mae'r adroddiad ar gael ar y we (Adroddiad 18). Diolch i Len Walters—cynhaliwyd arolygon ym Mae Ceredigion o'i gwch pysgota yn defnyddio sled fach.

Gwaith i'r dyfodol:


Defnyddiwyd y data a gasglwyd gan bysgotwyr i lywio arolwg sgan ymyl Bae Ceredigion a bydd yn cael ei gynnwys yn yr asesiad priodol o arbrawf dwysedd pysgota (gweler adran 'arbrawf dwysedd pysgota') Bydd y data o'r Cwch Ymchwil, y Tywysog Madog o Fis Hydref 2012 yn ychwanegu at y setiau data blaenorol i gynhyrchu adroddiad ar yr adfer ym Mae Ceredigion rhwng 2009 a 2012.



PYSGODFEYDD CYMRU GYFAN

Y rheng sy'n hedfan

Nid yw'r sled fach yn addas i wneud fideo o fathau o gynefin garw, creigiog neu fregus. Felly, cynlluniwyd system fideo arall dan ddŵr, y rheng sy'n hedfan, a'i brofi'n llwyddiannus. Mae'r rheng sy'n hedfan yn system fideo a dynnir dan ddŵr, wedi'i ffitio gyda chamera fideo, goleuadau LED a laserau (sy'n galluogi cofnodi mesuriadau manwl gywir o'r organebau gan y camera). Mae hynofedd a dyluniad yr uned yn ei alluogi i ymateb i newidiadau mewn llethr ac felly'n "hedfan" dros y gwaelod creigiog, yn hytrach na chael ei dynnu ar hyd gwely'r môr fel y sled fach



Ffotograff o'r rheng yn cael ei dynnu mewn profion



PYSGODFEYDD Y GRAGEN FYLCHOG

Arbrawf dwysedd pysgota

Amcan:

I gynnal arbrawf pysgota ym Mae Ceredigion i gynorthwyo i sefydlu pa ddwysedd pysgota all fod yn dderbyniol ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol ar gyfer ACA Bae Ceredigion. Dylai'r gwaith arfaethedig ddarparu'r dystiolaeth sydd ei angen ar gyfer y broses reoli sy'n ymwneud â'r rhanddeiliaid perthnasol. Yr amcanion yw:

1. Asesu effaith amgylcheddol treillio cregyn bylchog ar wahanol lefelau o ddwysedd yn yr ACA gan fonitro'r cymunedau ar wely'r môr cyn ac ar ôl pysgota
2. Penderfynu ar raddau adfer oddi fewn i'r ACA ar ôl gwahanol lefelau o ddwysedd drwy fonitro safleoedd arbennig dros gyfnod o 2 flynedd.


Prif ganlyniad yr astudiaeth yw i roi gwybod i'r diwydiant cregyn bylchog am eu heffaith ar wely'r môr yn ACA Bae Ceredigion a'u helpu i ganfod lefelau derbyniol o bysgota yn seiliedig ar effaith amgylcheddol uniongyrchol a gwytnwch yr ardal.

Cynnydd:

I allu cyflawni'r arbrawf, rhaid gwneud asesiad priodol. Mae'r adroddiad ar gyfer asesiad priodol yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd, gan gynnwys pob tystiolaeth sydd ar gael ar fathau is-haen yn yr ardal arbrofol arfaethedig. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys, a bydd yn cynnwys, dadansoddiadau o ffilmiau fideo'r pysgotwyr (sled fach), data sgan ymyl a mapiau OLEX wedi eu rhoi ar gael gan bysgotwyr. Bu cyfarfodydd llwyddiannus â'r rhan fwyaf o bysgotwyr cregyn bylchog i gael eu cefnogaeth, ymroddiad a mewnbwn. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd hefyd gyda Llywodraeth Cymru a'r CCGC/CNC i sicrhau cydweithrediad y rhai sy'n ymwneud â'r arbrawf.

Gwaith i'r dyfodol:

Cynhelir yr arbrawf mewn cydweithrediad â llynges pysgota cregyn bylchog Cymru. Y cynllun yw agor rhannau o hanner gorllewinol yr ACA, sydd ar hyn o bryd ar gau i bysgota, dan amgylchiadau arbrofol (h.y. ymdrech gyfyngedig) ym Mis Hydref 2013. Bydd angen samplu dwys gyda'r RV Tywysog Madog cyn ac ar ôl agor yr ardal.



PYSGODFEYDD Y GRAGEN FYLCHOG

Asesiad stoc cregyn bylchog

Amcan:

I asesu statws y stoc cregyn bylchog a dechrau cyfres amser o gyflenwad cregyn bylchog i ganiatáu asesiad stoc yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn hysbysu'r diwydiant pysgota a Llywodraeth Cymru am gyflwr eu hadnoddau a'u cynorthwyo a'u helpu ynglŷn â'r strategaethau rheoli priodol.

Cynnydd:

Cyflawnwyd yr arolwg cyntaf ym Mis Mehefin 2012. Mae hyn i fod yn arolwg gwyddonol blynyddol i ddatblygu'n indecs diduedd o gyflenwad. Defnyddir y cynllun bag coch, a ddatblygwyd gan Cefas, i ddatblygu allwedd oedran/hyd o ddalfeydd. Cyflwynwyd y cynllun i'r diwydiant a derbyniwyd y bagiau cyntaf a'u prosesu.

Gwaith i'r dyfodol:

Mae asesiad stoc wedi'i gynllunio ar gyfer Gorffennaf ac Awst eleni a bydd y cynllun bag coch yn parhau drwy gydol tymor pysgota 2013-2014.



Defnyddir y Tywysog Madog i wneud yr asesiad stoc, rhywau treillio cregyn bylchog yn aros i gael eu trefnu

Silio Cregyn Bylchog

Amcan:


I gasglu data ar stoc silio cregyn bylchog sydd ei angen i reoli pysgodfa'n gynaliadwy. I alluogi gwyddonwyr a rheolwyr i ddeall dynameg y stoc (Ble mae cregyn bylchog yn silio? Pa oedran dosbarthiadau sydd fwyaf ffrwythlon? A oes gwahaniaeth rhwng stoc y gogledd a stoc y de?) Mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol i reoli'r stoc yn gynaliadwy a byddai'n hysbysu'r ymchwil i gysylltedd y stociau. Gan fod pysgota wedi'i wahardd rhwng 1af Mai a 1af Tachwedd rhaid gweithredu strategaeth samplu benodol.

Cynnydd:

Cyflwynwyd y prosiect i bysgotwyr a gytunodd i helpu gyda'r samplu. Bydd hyn yn golygu tynnu rhwydi sengl o gwch cario cewyll gan ddod â samplau 1-4 gwaith y mis gyda 20-50 o gregyn bylchog. Gall samplu hefyd gael ei wneud gan ddeifwyr o gwmpas Penrhyn Llŷn. Mae ceisiadau am ganiatâd yn cael eu prosesu gan Lywodraeth Cymru.

Gwaith i'r dyfodol:

Bydd samplu'n yn cychwyn cyn gynted ag sy'n bosibl os awdurdodir y trwyddedau. Bydd cregyn bylchog yn cael eu mesur, eu pwyso, pennu eu hoed, pwysau'r organau rhyw a bydd ei chyflwr yn cael ei ddadan-soddi i ganfod pryd a ble bydd y gragen fylchog yn silio. Bydd wyau'r unigolion aeddfed yn cael eu casglu i amcangyfrif ffrwythlondeb ac ansawdd yr wy.



PYSGODFEYDD DRAENOGIAID Y MÔR

Silfeydd draenogiaid y môr

Amcan:

I adnabod silfeydd draenogiaid y môr oddi ar arfordir De Orllewin Cymru ac i adnabod stociau draenogiaid y môr lleol posibl. Bydd hyn yn darparu mewnwelediad i gysylltedd posibl silfeydd bach a adnabuwyd, a rhwng y silfeydd hyn a mannau bwydo arfordirol.

Cynnydd:

Dosbarthwyd pecyn samplo i 12 o bysgotwyr y glannau masnachol a rhai hamdden yn Ne Cymru. Mae'r pecyn yn cynnwys un cofnodydd data GPS i roi mewnwelediad i'r dosbarthiad ymdrech pysgota a lleoliadau dal; 20 o amlenni ar gyfer cen i gasglu cen i edrych ar symudiadau gofodol a chysylltedd y draenogiaid môr, 20 o fagiau i gasglu'r coluddion a'r organau rhyw i edrych ar gyfrannedd gwrywod: benywod y draenogiaid môr, 20 tiwb yn cynnwys ethanol (100%) i storio darnau bach o'r esgyll ar gyfer dadansoddiad genetig.

Gwaith i'r dyfodol:

Dadansoddir y darnau o esgyll i edrych ar gysylltedd stociau draenogiaid y môr ar draws Ewrop.

Dadansoddir yr organau rhywiol yn rheolaidd i wybod pa mor aeddfed yw'r unigolion.

Bydd cyfweiliadau gofodol gyda physgotwyr yn dechrau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf a bydd o gymorth i ganfod presenoldeb y cydgasgliad silio lleol.

Pysgodfeydd hamdden draenogiaid y môr

Amcan:

I ddiffinio tuedd mewn cyflenwad a/neu gymedr maint y corff yn y dalfeydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Bydd hyn yn gostwng y bwlch yn yr amcangyfrif o ymdrech pysgota (nifer o bobl yn gysylltiedig ac ardaloedd pysgota) a dalfeydd (CPUE [dalfa fesul uned ymdrech], cymedr maint y corff yn ôl ardal a thymor, cyfartaledd gwryw/benyw). Mae manyleb ar gyfer 'App' wedi'i datblygu ar gyfer iPhone a ffôn clyfar sy'n cysylltu â'r wefan er mywn i bysgotwyr hamdden allu lwytho eu data eu hunain. Bydd y data hwn yn darparu man cychwyn y rhaglen monitro rheolaidd dalfa draenogiaid y môr ac ymdrech i bysgodfeydd hamdden.

Cynnydd:

Cynhyrchwyd a rhannwyd llyfryn yn cynnwys amcanion y prosiect ac yn annog ymrwymiad bysgotwyr. Rydym wedi dechrau casglu data ar ddalfeydd y gorffennol o lyfrau cofnodion y clybiau pysgota o gychod siarter.



Gwaith i'r dyfodol:

Cysylltir â chlybiau newydd cychod siarter yn ogystal â physgotwyr hamdden o gymdeithasau eraill.

Bydd pecynnau samplo yn cael eu rhoi i bysgotwyr hamdden o ffederasiwn Pysgotwyr Môr (WFSA) a chymdeithas BASS.

Asesu cwch rhwydi draenogiaid y môr i'w defnyddio gyda system camera ar y cwch (gweler 'camera ar y cwch')



CEWYLL

Camera ar y cwch

Amcan:

Mae system gamera ar y cwch yn cael ei datblygu i asesu pysgodfeydd crancod a chimychiaid. Mae'r camera yn ffilmio yr holl ddalfa, y rhai sydd wedi eu dal a'r rhai sy'n rhy fach a dadansoddir y fideo i gasglu data am faint, rhyw a chyflenwad a fydd yn ffurfio sail yr asesiad statws stoc a'i ddefnyddio i greu indecs recriwtio i'r bysgodfa. Rydym hefyd yn gobeithio treialu'r dechnoleg hon gyda pysgodfa draenogiaid y môr.

Cynnydd:

Mae'r profion a dilysiant y system gamera i gasglu data cyflenwad, rhyw a maint crancod a chimychiaid bron wedi eu cwblhau. Rydym wedi peilota system mesur data cyflenwad crancod a rhyw, o fideo diwrnod yn halio cewyll o gwch ar Benrhyn Llŷn. Caniataodd hyn i ni adnabod a datrys unrhyw broblemau gyda'r weithdrefn. Cyflawnwyd dilysiant y meintiau a gafwyd o'r ffilmiau fideo gan ddefnyddio crancod a chimychiaid o'r Lobster Pot ar Ynys Môn. Dangosodd y canlyniadau fod y fideo yn fesur cywir o faint a rhyw y crancod a'r cimychiaid mwyaf.

Mae deg pysgotwr crancod/cimychiaid eisoes wedi cofrestru i ddefnyddio'r system hon ar eu cychod ac y mae gweithdy Prifysgol Bangor yn gyfredol yn gwneud casynau. Bydd pob pysgotwr gyda system camera yn cael rhes o bump cawell parlwr safonol i ganiatáu cymhariaeth rhwng pysgotwyr ac ardaloedd. Mae'r cewyll yn barod i gael eu rhannu.

Gwaith i'r dyfodol:

Unwaith y bydd casynau'r camera wedi'u cwblhau byddant yn cael eu ffitio ar gychod y pysgotwyr crancod a chimychiaid a fydd yn cofnodi un diwrnod o bysgota'r mis. Bydd cardiau cof y camera yn cael eu dychwelyd i Brifysgol Bangor i'w dadansoddi.

Tagio cimychiaid

Amcan:

Bydd tagio cimychiaid unigol yn galluogi casglu data twf wrth ail-ddal cimychiaid. Gellir defnyddio'r data twf hwn wedyn mewn cysylltiad â data maint o'r camera ar y cwch i greu indecs o'r niferoedd o gimychiaid sy'n rhy fach i'w recriwtio i'r bysgodfa ymhen blwyddyn a dwy flynedd. Yn ychwanegol i'r data twf, bydd yr arbrawf tagio yn caniatáu i ni weld symudiadau'r cimychiaid ac yna bydd graddfa eu hail-ddal yn cael ei ddefnyddio i amcangyfrif y cyflenwad gan ddefnyddio dadansoddiadau ystadegol.

Cynnydd:

Prynwyd 5,000 o dagiau a byddant yn cael eu defnyddio o amgylch Cymru gyfan. Rydym wedi defnyddio safleoedd sy'n hanesyddol yn dangos amrywiaeth o batrymedd tymheredd gwahanol i ganiatáu i ni fodelu effeithiau tymheredd ar dwf. Oherwydd tymheredd oer y môr y gwanwyn hwn, mae cyfraddau dal cimychiaid wedi bod yn isel. Am ei bod yn bwysig ein bod yn tagio niferoedd mawr o gimychiaid ym mhob ardal er mwyn codi'r niferoedd rydym yn debygol o'i hail-ddal, rydym wedi cadw'r tagio yn ôl nes y bydd y tymheredd yn codi ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

Mae llwyddiant yr arbrawf tagio'n dibynnu'n drwm ar gydweithrediad y diwydiant pysgota: i ddechrau rhaid i'r cimychiaid a dagiwyd beidio â chael eu dal yn ystod cyfnod yr arbrawf ac yn ail mae angen i'r pysgotwyr roi gwybod i ni am unrhyw ail-ddal. Rydym wedi rhoi gwybod am y prosiect hwn gyda chymdeithasau pysgotwyr yn rhanbarthol ac rydym wedi roi hysbysebion mewn rhai papurau newydd i godi ymwybyddiaeth o'r arbrawf.

Statws stoc y gragen foch fwyaf

Amcan:

Mae'r gragen foch fwyaf (*Buccinum undatum*) yn rhywogaeth sy'n tyfu'n araf gydag ychydig o botensial ar gyfer symud. Mae strategaethau yn ystod eu bywyd yn eu gwneud yn agored i orbysgota ac mae'n debygol y byddai gormod o ymelwa angen tymor adfer hir. Ar hyn o bryd, lleiafswm y maint ar gyfer eu dal yw 45mm. Mae ymchwil blaenorol yn awgrymu fod y gragen foch fwyaf yn y poblogaethau deheuol yn aeddfedu ar feintiau sy'n fwy na hyn. Nid oes dogfennaeth ar gael am amrywioldeb gofodol mewn cyflenwad, strwythur maint neu gymhareb rhyw o'r gragen foch fwyaf. Ni ddeallir y gyrwyr amgylcheddol yn dda ar gyfer cyflenwad y gragen foch fwyaf. Er mwyn darparu data ar gyfer rheoli stoc, rydym am gasglu gwahanol ddata ar baramedrau fel daliad fesul ymdrech uned, maint pan fydd yn aeddfed a chyflenwad.

Cynnydd:

Rhoddwyd cewyll gwyddonol y gragen foch fwyaf i bysgotwyr yn Abertawe, Sir Benfro, Bae Ceredigion, Penrhyn Llŷn ac Ynys Môn. Mae gan bysgotwyr ddau gawell yr un a byddant yn pysgota gyda'r rhain yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd y pysgotwr yn cofnodi gwybodaeth ofodol, dymhorol ac amgylcheddol am ddalfa'r dydd ac yn dychwelyd cynnwys llawn y cawell gwyddonol ynghyd â'r daflen ddata.

Gwaith i'r dyfodol:

Byddwn yn cysylltu â mwy o bysgotwyr ledled Cymru i gael data am y ddalfa bysgod ar raddfa ofodol fwy manwl. Rydym yn cynllunio astudiaeth dagio i asesu natur glytion a phatrymau symudiadau'r gragen foch fwyaf mewn ymateb i wahanol ddylanwadau amgylcheddol. Mae gwahanol ddulliau o dagio yn cael eu treialu ar hyn o bryd.

Statws stoc gorgimychiaid

Amcan:

Credir y gall y gymhareb rhyw (nifer y gwrywod a'r benywod yn y boblogaeth) fod wedi gogwyddo tuag at y gwrywod am fod y benywod yn fwy ac felly yn fwy tebygol o gael eu bwyta gan ysglyfaethwyr. Gall y gymhareb rhyw hon fod wedi ei gogwyddo ymhellach os yw pysgodfeydd yn dewis cadw benywod neu ddim ond yn dal benywod yn ystod mudo i silio. Byddwn yn cymharu cyflenwad, defnydd o gynefin a chymhareb rhyw rhwng poblogaethau recriwtiaid, rhai wedi eu pysgota ac oedolion sydd heb eu pysgota, a chasglu data i alluogi asesiad o'r stoc yn y dyfodol.

Cynnydd:


Dosbarthwyd cewyll gorgimychiaid gwyddonol i bysgotwyr yn Sir Benfro, Bae Ceredigion, Penrhyn Llŷn ac Ynys Môn. Mae pysgotwyr yn cael dau gawell yr un a byddant yn defnyddio'r rhain i pysgota am y 12 mis nesaf. Er na fydd pysgotwyr yn pysgota am y gorgimychiaid yn ystod misoedd yr haf, mae rhai gwirfoddolwyr wedi cytuno i parhau i bysgota'r cewyll gwyddonol unwaith y mis er mwyn cael data tymhorol. Mae'r pysgotwr yn cofnodi gwybodaeth gofodol, tymhorol ac amgylcheddol o ddiwrnod y pysgota ac yn dychwelyd cynnwys llawn y cawell gwyddonol yn ogystal â'r daflen data.

Gwaith i'r dyfodol:

Yn ystod y tymor pysgota gorgimychiaid nesaf bydd yr ymdrech yn cynyddu'n sylweddol. Wrth i fwy o bysgotwyr newid o bysgota cimychiaid neu'r gragen foch fwyaf i'r gorgimychiaid, byddwn yn ymgysylltu â mwy o bysgotwyr ledled Cymru er mwyn cael data ar raddfa tymhorol a gofodol manylach yn ystod misoedd y gaeaf.

CEWYLL

Rydym angen pellter gwybyddus yn y maes gweld i osod graddfa'r llun. Yma, y pellter a ddangosir gan y llinell goch yw 100mm.



Unwaith mae'r raddfa wedi ei gosod, gallwn fesur hyd argragen cimychiaid a hyd argragen crancod.



Gyda'r cimychiaid rydym yn mesur lled yr abdomen er mwyn penderfynu pa ryw ydynt; gyda'r crancod gallwn ddweud yn rhwydd pa ryw ydyw wrth ei droi ben ucha'n isaf.

Lluniau wedi'u cymryd gan gamera ar y cwch yn dangos y mesuriadau a gymerwyd a sut y penderfynir ar ryw crancod a chimychiaid

Tadogaeth crancod coch

Amcan:

Os yw benyw y cranc coch yn arddangos monogami genynnau (maent yn cario wyau o un gwryw yn unig) yna mae maint y boblogaeth yn cael ei chyfyngu gan nifer y benywod. Mae symud y benywod o boblogaethau o'r fath yn eu gadael yn agored i ostyngiad ym maint y boblogaeth waeth beth fo niferoedd y gwrywod. Mae data o'r pysgodfeydd yn awgrymu fod y benywod yn cael eu casglu yn amlach, ac nid oes unrhyw is-ddeddfau ar hyn o bryd i ddiogelu benywod beichiog. Bydd deall systemau atgenhedlu'r cranc coch yn bwysig ar gyfer rheoli ar sail gwybodaeth. Bydd y gwaith hwn yn casglu samplau o fenywod ac wyau ar gyfer dadansoddiad genetig.

Cynnydd:

Mae casglu samplau o fenywod beichiog ac wyau wedi dechrau a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddiad genetig.

Gwaith i'r dyfodol:

Yn ystod anterth y cyfnod samplo hwn, byddwn hefyd yn rhoi ar waith fesul cam beilot o astudiaeth tagio benywod beichiog i benderfynu cyfeiriad symudiadau tymor byr benywod beichiog, ac a ydynt yn cael eu dal yn yr un cewyll dro ar ôl tro unwaith y maent wedi gollwng eu wyau.

NEWYDDION ARALL

Hwyl fawr i Dr Hilmar Hinz, ein rheolwr prosiect, sydd bellach wedi gadael y tîm ac i Dr Peter Duncan o dîm Ynys Manaw.

Dymunwn groesawu Dr Lee Murray i'w swydd newydd fel rheolwr prosiect a Dr Natalie Hold i'w swydd newydd hithau fel dirprwy reolwr prosiect.

Rydym hefyd yn dymuno cyflwyno Dr Peter Robins a Dr Simon Neill, sy'n ymchwilyr mewn eigioneg. Maent yn rhan o'r gwaith sy'n edrych ar gysylltedd stoc yng Nghymru.



Dr Simon Neill



Dr Peter Robins